# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 4 Rhagfyr 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 5 Rhagfyr 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 12 Rhagfyr 2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC** Prydles hir dymor yn uniongyrchol i Gwmni Pum Plwy Penllyn

**PENDERFYNIAD –**
Prydlesu'r eiddo a adnabyddir fel Canolan Bro Tegid, Y Bala yn uniongyrchol i Gwmni Pum Plwy Penllyn ar delerau ac amodau i'w penu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.im

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Daniel Lewis<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 04/12/2024 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc:** Prydles hir dymor yn uniongyrchol i Gwmni Pum Plwy Penllyn

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:**
Prydlesu'r eiddo a adnabyddir fel Canolan Bro Tegid, Y Bala yn uniongyrchol i Gwmni Pum Plwy Penllyn ar delerau ac amodau i'w penu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:**
Galluogi'r Cyngor i roi prydles yn uniongyrchol i Gwmni Pum Plwy Penllyn.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad**

Mae Canolfan Bro Tegid wedi gweithredu fel Canolfan Gymdeithasol i wasanaethu trigolion ardal Y Bala ers degawdau. Mae'n ganolfan llewyrchus, sy'n atynu nifer o ddigwyddiadau a grwpiau cymunedol.

Hyd nes diwedd mis Ebrill eleni, roedd y ganolfan ar brydles i Gyngor Tref y Bala gyda phwyllgor yn gweinyddu'r ganolfan. Dros y blynyddoedd bu i aelodaeth y Pwyllgor grebachu. Daethpwyd a'r Pwyllgor i ben yn gynharach eleni, ac yn sgil hyny penderfynnodd y Cyngor Tref ildio eu prydles a throsglwyddo rheolaeth y ganolfan i Cwmni Pum Plwy Penllyn er sicrhau parhad  adnodd cymunedol pwysig I'r ardal.

Mae cwmni Pum Plwy Penllyn sy'n bartneriaeth o aelodaeth Cynghorau Cymuned a Thref ardal Penllyn wedi bod mewn meddiant o'r adeilad trwy gytundeb dros dro ers mis Mai eleni. Mae Cwmni Pwm Plwy Penllyn eisoes yn rhedeg Canolfan Henblas, adeilad arall sy'n berchen i Gyngor Gwynedd, a hyny yn llwyddianus. Bydd modd i'r cwmni gyd weinyddu y ddau safle yn effeithiol.

Mae'r cwmni wedi atynu arain grant SPF a Trawsnewid Trefi sylweddol, ac yn amodol ar sicrhau prydles hir dymor, bydd y Cwmni yn buddsoddi swm o £250,000 yn yr adeilad erbyn mis Mawrth 2025.

Trwy gymeradwyo'r argymhelliad hwn a throsglwyddo'r safle yn uniongyrchol i Gwmmni Pum Plwy Penrhyn, bydd modd i symud ymlaen yn ddi-oed i sicrhau buddsoddiad yn yr adeilad i sicrhau ei ddyfodol er budd trigolion ardal Penllyn.

O ystyried defnydd yr adeilad fel Canolfan Gymdeithasol fel a sydd wedi ei sefydlu ers degawdau mae hyn yn cyfiawnhau y penderfyniad o dan y Caniatad Gwaredu Cyffredinol ( Cymru ) 2003 Deddf Llywodraeth Leol 1972

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**
Dim.


**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**
Dim.

**Prif Swyddog Cyllid** – Dewi Morgan **-**"Dim gwrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."

**Swyddog Monitro** – Iwan Evans **-** Rwyf wedi cael cyfle i gynghori ar y mater yma ac yn fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir fydd yn gyfrwng i sicrhau buddsoddiad ac cynaliadwyedd adnodd cymunedol pwysig i'r dyfodol.

**Aelod/au Lleol**: Cynghorydd Dilwyn Morgan – “Hoffwn ddatgan fy nghefnogaeth lwyr i ganiatau prydles hirdymor uniongyrchol i Pum Plwy Penllyn ar gyfer Canolfan Bro Tegid.

Y mae hwn yn adnodd cymunedol hynod bwysig ir cymunedau lleol a braf fydd gweld gwariant sylweddol i'w ddiogelu ar gyfer y dyfodol.”




Cynllun: Plan: **Canolfan Bro Tegid, Y Bala**

Graddfa / Scale @ A4: 1:1,250

Tai ac Eiddo

© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd

Dyddiad: Date: 25/04/2024